PROSIECT WICKED

Adroddiad Chwarter Blwyddyn, Hydref – Rhagfyr. '07

TIR COED

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton Foundation

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

1. Trosolwg o weithgareddau Tir Coed:

1. O dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd y Cwmni, John Wildig, y mae tîm Tir Coed wedi bod yn cwrdd yn fisol i drafod datblygiadau a materion sydd wedi codi.

2. Y mae Chris, Swyddog Gweinyddol Tir Coed, wedi dechrau gwneud ceisiadau am gyllid craidd gan Ymddiriedolaethau Elusennol bychain. Bydd y ceisiadau yn parhau i gael eu hanfon.

3. Ym mhob chwarter, y mae Chris, Gwyneth a Becky wedi bod yn cael cyfarfodydd ariannol.
Ar ddiwedd y trydydd chwarter, mae yna ychydig o danwariant yng nghyllid y BLF, ond fe all gael ei ddefnyddio yn chwarteri'r dyfodol. Y mae'r tanwariant yng nghyllid Comic Relief – a gaeth ei fanylu yn yr Adroddiad Chwarter Blwyddyn diwethaf – wedi ei glustnodi i weithgareddau ychwanegol ar gyfer Gofalwyr Ifanc fel rhan o Gynllun Mês, a thrwy drefnu Dathliad Mês Diwedd Blwyddyn.

4. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Tir Coed a chyfarfod chwe mis Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 10fed Hydref, 2007. Ymddeolodd yr Athro John Good o'r Gadair, ond nid o'r bwrdd; camodd Simon Hewitt i'w le. Croesawyd dau Gyfarwyddwr newydd i'r cyfarfod, Rachel Chamberlain o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Liam McPhearson o Dîm Troseddwyr Ifanc Ceredigion.
Cymeradwywyd yr adroddiadau a'r polisïau dilynol:
Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Datganiad Ariannol, 2006/07;
Cynllun Busnes Tir Coed, 2007/08;
Cynllun Strategol Tir Coed
Polisi Wrth Gefn

5. Mynychodd Gwyneth ddigwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Penfro – "Mesur y Gwahaniaeth" – a oedd yn edrych ar wahanol ddulliau ar sut i fesur yr effaith y mae'n gwaith ni yn ei gael ar y bobol yr ydym yn eu cefnogi.

6. Ar ymweliad arolwg cyntaf prosiect WICKED, cyfarfu y Swyddogion Prosiect, y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, efo Mr. Hywel Lovegreen, Swyddog Cronfa'r Loteri Fawr. Ymddengys bod Mr. Lovegreen yn teimlo'n foddhaol iawn ynglŷn â datblygiad y prosiect yn ystod y chwe mis cyntaf, yn enwedig o ran y ffurf, a'r manylion a gaed o fewn yr adroddiadau chwarterol.
Trafodwyd mentrau a thrafferthion oddi fewn i siroedd penodol; ond nid oedd yna unrhyw beth difrifol i'w drafod. Ynghŷd â thrafod y niferoedd llai na'r disgwyl a wnaeth gymeryd rhan, a chanlyniad hyn ar y sgôr terfynol, trafodwyd trafferthion mesur y sgôr "hapusrwydd" ar ddiwedd y weithgaredd. Cytunodd Hywel i newid canran y garreg filltir – y mae gan *"**70%** o'r cyfranogion yn y gweithgareddau /rhaglen, gyfartaledd presenoldeb o o leiaf **70%**".*

Cytunodd Mr. Lovegreen hefyd y gallai "diwedd blwyddyn" y prosiect gael ei symud ymlaen i fis Mawrth bob blwyddyn. Buasai hyn yn symleiddio'r broses gyfrifo ariannol gan y byddai yn syrthio ar ddiwedd blwyddyn ariannol Tir Coed.

7. Cynrychiolwyd Tir Coed gan John Wildig yn nigwyddiad Polisi Rhanbarthol CGGC – "Diweddariad Cronfa Strwythurol Ewrop". O ganlyniad i rwydweithio John, gwahoddwyd Tir Coed i roddi cyflwyniad ar brosiect WICKED i Isadran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion LCC. Cyfarfu Simon, John a Gwyneth efo Marcus Hill a Nikki Moulds o adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Adran yn ymgeisio am gyllid gan Gynllun Cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer "Reach the Heights" – rhaglen sy'n canolbwyntio ar godi lefelau cyrhaeddiad ac ysgogi lefelau gallu pobol ifanc anos eu cyrraedd yng Nghymru.
Teimlai Cadeirydd ac Ysgrifennydd Tir Coed y byddai gweithgareddau presennol prosiect WICKED yn gweithio'n dda yn y prosiect hwn; felly mynegodd Tir Coed ddiddordeb mewn dod yn bartner yn y prosiect.
Trwy ddefnyddio'r cyllid sydd wedi ei sicrhau'n barod ar gyfer prosiect WICKED fel cyllideb cyfartal, gallai Tir Coed, trwy raglen "Reach the Heights" dderbyn cyllid o Ewrop. Byddai hyn yn ein galluogi i gyflogi Swyddogion prosiect ychwanegol i ehangu prosiect WICKED i siroedd Gogledd Orllewin Cymru, yn benodol Gwynedd, Sir Fôn, Conwy, a Sir Ddinbych.
Y mae diweddariad o'r Ffurflen Gynnig Prosiect yn cael ei chreu ar hyn o bryd ar gyfer "Reach the Heights"

8. Mynychodd Becky a Gwyneth ddiwrnod hyfforddiant CGGC "Ways to include Young People". Teimlwyd bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer canfod ffyrdd ymarferol o uniaethu efo pobl ifanc.

9. Cafodd Becky a Gwyneth gyfarfod defnyddiol iawn efo gweinyddwraig achredu'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) dros Awdurdod Addysg Ceredigion, Sue Lewis. Gallodd Sue ddangos enghreifftiau i ni o waith papur yr oedd hi wedi eu casglu er mwyn danfon a chadarnhau unedau RhCA. Yr oedd Sue yn hapus i rannu'r patrymlun efo ni.

10. Cynrychiolodd John Wildig Tir Coed yng nghyfarfod blynyddol Deilwyr Coed Cymru.

2. Gweithgareddau yn y Trydydd Chwarter wedi eu rhestru dan mentrau unigol prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun Mês

(Gweithgareddau gorffwysol i Ofalwyr Ifanc)

Mae gweithgareddau o dan y fenter yma wedi bod yn cymryd lle yn ystod hanner tymor mis yr Hydref ac mewn ambell noswaith clwb Gofalwyr Ifanc. Erbyn hyn, mae Tir Coed wedi cynnal ei gweithgaredd cyntaf efo Gofalwyr Ifanc Sir Benfro, ac maent yn gobeithio bod yn rhan o'r Dathliadau Diwedd Blwyddyn sydd wedi trefnu ar gyfer mis Chwefror.

Gofalwyr Ifanc Powys:

Gweithdy 2 ddiwrnod yn gwneud llusernau allan o goed Helyg – Dyma'r weithgaredd cyntaf i gymeryd lle yn ardal De Powys ac fe'i mynychwyd gan Ofalwyr Ifanc o grŵp Aberhonddu. Cafodd y weithgaredd ei gynnal ym Mharc Gwledig Craig y Nos yn ystod hanner tymor yr ysgol.
Er bod 6 o bobl ifanc wedi mynegi diddordeb yn y weithgaredd, dim ond tri bu'n cyfranogi yn y gweithdy.
Er bod y nifer a wnaeth gymeryd rhan yn siomedig o isel, roedd gwerth y profiad yn amlwg iawn. Doedd y bobol ifanc wir ddim eisiau gadael ar ddiwedd yr ail ddiwrnod! Crëwyd llusernau mawr allan o goed Helyg a phapur sidan. Yn dilyn picnic ar thema Calan Gaeaf, bu'r cyfranogion yn mwynháu yn adeiladu lloches o goed Helyg ar safle Ysgol Goedwig y Parc.
Methodd un o'r cyfranogion fynychu'r ail ddiwrnod gan ei bod yn ymweld â'i theulu; ond er hyn, gorffennodd yr athro ei llusern ac aeth staff y Gofalwyr Ifanc â'r gwaith gorffenedig i'w chartref.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw.	Aeth pob un o'r cyfranogwyr â llusern adref efo nhw.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	2 gyfranogwr – 100% 1 cyfranogwr – 50%	Ymwelodd 1 o'r cyfranogwyr â'i theulu ar yr 2il ddiwrnod
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un	Do, enwodd pob un o'r	

math o goeden	cyfranogwyr, a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad, o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, enwodd pob un o'r cyfranogwyr, a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad, o leiaf un math o ffawna a geir mewn coedlan.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Do, yr oedd pob un o'r cyfranogwyr, wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad, yn gwybod am o leiaf un ffordd y mae coedlannau o feunydd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na	Rhoddodd pob un o'r cyfranogwyr y sgôr uchaf o 5 i'w hunain ar ddechrau'r gweithdy.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd pob un o'r cyfranogwyr, a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad, eisiau cymeryd rhan mewn mwy o weithgareddau coedwig.	

<u>Adborth:</u>

Hoffterau - *"Gwneud y llusern"*
"Adeiladu'r lloches"

Anhoffterau-*"Dim"*
"Yr elyrch yn bod yn gas wrth elyrch eraill"

Be wnaethoch chi? –
"Llusernau lliwgar allan o ddail a choed Helyg"
"Calon allan o goed Helyg"
"Pabell allan o goed Helyg"

Creu Addurniadau Nadolig o goed Helyg – Y mae 6 clwb Gofalwyr Ifanc, ym Mhowys, sy'n cwrdd rhwng 4.00pm – 6.30pm bôb-yn-ail wythnos. Penderfynodd yr aelodau a'r staff y buasent yn hoffi cael gweithgaredd noswaith clwb ar thema'r Nadolig. Oherwydd mae Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd oedd yr wythnos yn dechrau Rhagfyr 3ydd, cynhaliwyd 4 o'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos hon. Cafodd y 2 sesiwn arall eu cynnal yn hwyr ym mis Tachwedd.

Cynhaliwyd y sesiynau gan Helen Porter (gogledd Powys) ac Anne Johnson (de Powys). Yn ystod y sesiwn, rhoddwyd dewis i'r bobl ifanc o addurniadau y gellid eu gwneud, gan gynnwys sêr mawr, daliwr cardiau seren wib, torchau, a basged losin.

Roedd y bobl ifanc yn frwd i ddechrau'r gweithgareddau, a tyfodd hyder rhai cymaint, nes iddynt gynorthwyo eu cyfeillion wrth orffen eu haddurniadau ar ddiwedd y sesiwn.

Clwb Y Drenewydd, Tach 19eg – mynychodd 6 o bobl ifanc, a tarodd eraill i mewn ag allan yn ystod y sesiwn.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, defnyddiwyd y camera fideo i recordio.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser	Amherthnasol, dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hi	6 yn cymeryd rhan
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 66% yn teimlo'n hapusach	4 – hapusach 2 – yn rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan ar y dechrau
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 83% eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau coedwig.	5 allan o 6 cyfranogwr

Adborth:

Hoffterau - *"Gwneud y fasged a'r seren fawr"*
"Gwneud y seren wib*"*
"Addurno'r seren"
"Popeth"

Anhoffterau-*"Dim byd"* (x 6)

Clwb y Trallwng, Tach 21ain – Bu 8 o bobl ifanc yn cymeryd rhan.
Methodd swyddog Tir Coed fynychu. Ni wnaeth y Gweithiwr Gweithgareddau gymeryd adborth o'r bobl ifanc.

Clwb Trefyclo, Rhag. 4ydd –
Methodd swyddog Tir Coed fynychu. Ni wnaeth y Gweithiwr Gweithgareddau gymeryd adborth o'r bobl ifanc.

Adborth Hyfforddwyr y 3 gweithdy uchod:
"Yn gyffredinol, tyfodd hyder a lefel canolbwyntio'r myfyrwyr wrth iddynt sylweddoli beth y gallent gyflawni. Symudodd y rhai oedd yn gallu ymlaen yn gyflym iawn i gynorthwyo eraill. Yr oedd y rhai a aeth ymlaen i wneud basged yn hapus iawn â'u hunain." – Helen Porter.

Clwb Ystradgynlais, Rhag. 4ydd – Cafodd y grŵp hwn ei sefydlu yn ddiweddar iawn. Cymerodd dau blentyn yn eu harddegau ran yn y gweithgaredd.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser	Amherthnasol, dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hwn	2 yn cymeryd rhan
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:	Do, 100% yn teimlo'n hapusach	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, yr oedd 100% eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau coedwig.	

Adborth:

Hoffterau - *"Gwneud y torchau"*
"Gwneud ac addurno'r seren"

Anhoffterau-*"Dim"* x 2

Clwb Llandrindod, Rhag. 5ed – 6 o bobl ifanc yn cymeryd rhan.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	

70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser	Amherthnasol, dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hwn	6 yn cymeryd rhan
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 66% yn teimlo'n hapusach	4 – hapusach 2 – yn rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan ar y cychwyn
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd 100% eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau coedwig	

Adborth y Gweithiwr Gweithgareddau:
"Fe wnaeth y ddau griw (Ystradgynlais ac Aberhonddu) greu pethau, felly buont nid yn unig yn dysgu'r sgil o wneud rhywbeth go iawn, ond buont hefyd yn dysgu am y gwahanol fathau o bren. Eglurodd yr hyfforddwyr ynglŷn â'r coed gwahanol yr oeddent yn eu defnyddio (Yr Helygen a'r Gollen), sut i'w medi a'u tyfu, ac am y defnydd a wnaed ohonynt yn draddodiadol."
"Yr oedd y cyrhaeddiad yn cynnwys: amynedd, canolbwyntio, ymlacio, gwrando, gwylio, gallu artistig."

Clwb Aberhonddu, Rhag. 6ed –

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref efo nhw	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser	Amherthnasol, dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hwn	10 cyfranogwr
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 77% yn teimlo'n hapusach	7 – hapusach 1 – yn llai hapus 2 – yn rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan ar y cychwyn
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd 90% eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau mewn coedlannau.	

Adborth:

Hoffterau – *"popeth"* x 4
"bod efo pobl dwi'n eu nabod"
"diddorol"
"gwneud seren ar gyfer Emma Small"
"gwneud y torchau a'r seren"
"gwneud addurniadau Nadolig"

Anhoffterau-*"Dim"* x 9

Adborth y Gweithiwr Gweithgareddau:
"Canolbwyntiodd y bechgyn yn dda iawn, a chynhyrchont bethau da iawn. Mae un o'r merched yn cynorthwyo grŵp ieuenctid Eglwys leol, ac mae hi yn nawr am ddysgu iddynt y pethau y dysgodd hi. Penderfynodd aelodau o griw Aberhonddu y gallent wneud pethau i'w gwerthu ar stondin Nadolig y clwb ieuenctid. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r criw rywbeth y gellid ei roi fel anrheg – roedd pob un yn falch iawn ac yn rhyfeddu ar eu gallu erbyn ddiwedd y sesiwn"

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Gweithdy 3-diwrnod ar Fferm Denmarc, gwneud llusern o goed Helyg
Roedd y prosiect hwn, a ddigwyddodd yn ystod hanner tymor yr ysgol, yn cael ei gynnig ar y cyd a Shared Earth Trust. Ariannodd Tir Coed dau ddiwrnod 1af y gweithdy, tra caeth y trydydd diwrnod a'r dathliad terfynol (gorymdaith lusern a gwledd) eu ariannu gan y Shared Earth Trust.
Pod Clare arweiniodd y gweithgareddau.
Fe wnaeth y pedwar gofalwr ifanc a gymerodd ran wir fwynhau eu hunain ac roedd y darnau iddynt gynhyrchu yn drawiadol.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	100% yn bresennol	

O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob un o'r cyfranogwyr a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad, o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, enwodd pob un o'r cyfranogwyr a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad o leiaf un math o ffawna a geir mewn coedlan.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Do, yr oedd pob un o'r cyfranogwyr wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad yn gwybod am o leiaf un ffordd y mae coedlannau o ddeunydd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 75% yn teimlo'n hapusach	3 – hapusach 1 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd 100% eisiau cymeryd rhan mewn mwy o weithgareddau mewn coedlannau.	

<u>Adborth:</u>

Hoffterau- *"Gwneud cyfeillion efo'r coed"*
"fframiau lluniau"
"Llusernau a phopeth"
Celfyddid tir"

Anhoffterau *"Dim"*

Be wnaethoch chi –
"Gwneud llusernau"
"Gwneud llusernau pwmpen"
"Gwneud cyfeillion efo'r coed"
"Celfyddyd tir"

<u>Adborth yr Hyfforddwr</u> –
"Dydd ar ôl dydd, tyfodd yr ymdrech a'r lefel canolbwyntio y rhoesant i'r gwaith; golygodd hyn iddynt gael eu gwobrwyo gan ganlyniadau ardderchog, ac roeddent yn teimlo yn falch iawn efo'u hunain. Hefyd, datblygodd lefel y cyfeillgarwch a'r cydweithio yn sylweddol."

Adborth y Gweithiwr Gweithgareddau -
"Credaf bod hyder pob un wedi tyfu. Ar y dechrau, pan yn creu darnau o waith celf, nid oeddent yn hyderus iawn yn eu hunain. Yn ystod y gweithgareddau, tyfodd eu hyder. Daliodd y gweithgareddau yma eu sylw yn llawn."

Gofalwyr Ifanc Gogledd Ceredigion – Neuadd Bentref Llanfarian, Rhag. 5ed –
Gwnaethpwyd coed Nadolig allan o goed Helyg ac o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu, ynghŷd â chardiau wedi eu haddurno hefo Lilandi.
Cymerodd chwe person ifanc ran yn y gweithgaredd yma. Roedd y Cydlynydd Gweithgareddau Gofalwyr Ifanc yn falch iawn o weld dwy ferch yn eu harddegau, sydd ddim fel arfer yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pob un o'r cyfranogwyr fynd ag o leiaf 2 addurn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser	Amherthnasol, sesiwn 2.5 awr yn unig	6 yn cymeryd rhan
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 83% yn teimlo'n hapusach	5 – hapusach 1 – yn rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan ar y cychwyn
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd 83% eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau mewn coedlannau.	

Adborth:

Hoffterau - *"Gwneud y goeden Nadolig"*
"Popeth"

Anhoffterau-*"Fe wnes i hoffi popeth" x 3*

Gofalwyr Ifanc De Ceredigion – Theatr Mwldan, Rhag. 13eg –
Fe wnaeth 7 o bobl ifanc gymeryd rhan. Gwnaethpwyd coed Nadolig allan o goed Helyg a deunyddiau wedi eu hailgylchu, a chardiau wedi eu haddurno efo Lilandi.

Adborth y Gweithiwr Gweithgareddau –
"Roedd yr adborth â gafwyd gan y bobl ifanc ar ôl gwneud yr addurniadau Nadolig yn dangos bod pob un ohonynt yn teimlo gwelliant yn eu cyflwr emosiynol ar ôl y weithgaredd hon.
Yr oedd pob un o'r bobl ifanc yn falch o'u cyrhaeddiad, felly, yn fy marn i, dangosodd pob un welliant yn eu hunan hyder.
Yr oedd pob un o'r gofalwyr ifanc a wnaeth gymryd rhan yn synnu'n fawr ac yn meddwl ei bod yn aruthrol eu bod nhw'n gallu creu addurniadau mor anhygoel allan o goed a deunydd wedi eu hailgylchu. Dangosodd yr holl blant fodlonrwydd i ddysgu mwy am greu addurniadau efo Pod."

Adborth yr Hyfforddwr (Pod Clare) –
"Fe wnaethant gymryd gofal mawr tra'n gweithio ar yr holl weithgareddau ac roedd safon y gwaith â gynhyrchon nhw yn ardderchog; roedden nhw i gyd yn hapus efo'r gwaith, ac yn falch o gael mynd â'i cynnyrch adref efo nhw.
Mae nhw wedi dysgu am siapiau geometrig, sut i ddefnyddio gwahanol offer megis y gwn glud, ond yn fwy na dim, dwi'n credu eu bod wedi sylweddoli a gwerthfawrogi gwerth a pa mor foddhaol ydi hi i greu pethau eich hunan.
Ar y dechrau, fe ddywedodd sawl un ohonynt nhw wrtha i eu bod nhw ddim go iawn "meun i gelf" ac felly'n amlwg ddim yn disgwyl cyflawni llawer iawn, ond cawsant eu synnu ac roeddent yn falch ofnadwy yn yr hyn y gwnaethant gyflawni."

AWGRYMIADAU GEN POD CLARE – I'W TRAFOD YM MHELLACH EFO TÎM Y GOFALWYR IFANC -
"Mae hi'n amlwg i mi bod y Gofalwyr Ifanc yn rhannu cyswllt gref a hunaniaeth fel criw – mae nhw'n gyfeillgar ac yn gefnogol i'w gilydd, ac roedd y sgwrsio yn ystod y gweithdy yn aml rhwng y criw cyfan, sydd, yn ôl fy mhrofiad i, ddim yn digwydd yn aml iawn.
Dwi'n credu y byddai'n beth braf iawn i ddatblygu hyn ymhellach drwy ddod a nhw i gyd at ei gilydd, a'u cael i roddi eu pennau ynghyd i gynllunio logo i'w hunain – un y gallant eu brintio ar gardiau ac ar grysau ti ayyb. (Mae genna i gyfarpar sgrinio sidan ac inciau).
Efallai hefyd y gallai gael ei droi meun i faner fawr, un y gallent ei cludo gyda nhw tra'n mynd allan efo'u gilydd, neu mewn digwyddiad codi arian, ayyb
Dwi wedi gwneud y math yma o beth yn eithaf aml efo grwpiau megis y grŵp iechyd meddwl, mae'n gymorth i gryfháu cymeriad y criw."

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin:

Fe wnaeth Becky gyfarfod â staff Gofalwr Ifanc Sir Gaerfyrddin ym mis Hydref i adolygu gweithgareddau Mês cyfnod yr haf. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, gwnaeth un Gweithiwr Cynorthwyol y sylw ei bod hi wedi amau ar y cychwyn y byddai'r bobl ifanc yn mwynhau gweithgareddau Tir Coed, ond ei bod wedi cael ei synnu ar yr ochor orau drwy weld brwdfrydedd y gofalwyr ifanc unwaith iddynt gymeryd rhan.

2 x Gweithdy Helyg Calan Gaeaf 1-diwrnod - 2 weithdy ar thema Calan Gaeaf, cynhaliwyd y cyntaf ohonynt, ar gyfer plant 8 – 12 mlwydd oed, ar y 30ain Hydref, a'r ail, ar gyfer bobl ifanc 13 – 18 mlwydd oed, ar Dachwedd 1af. Arweiniwyd y 2 weithdy gan Jo Steadman, a fe wnaeth Sian Cornelius gefnogi yn y gweithdy cyntaf a Helen Campbell yn yr ail. Cynhaliwyd y ddau weithdy yn Nhŷ'r Trysordy, Johnstown, Caerfyrddin.

a.) Roedd y grŵp cyntaf, ieuengaf, yn cynnwys 8 Gofalwr Ifanc. I ddechrau, cyflwynwyd y cyfranogwyr i werthoedd yr Helygen a sut y gellid ei phlygu i greu siapiau adeileddol. Gwnaeth y criw amryw o lusernau ar thema Calan Gaeaf, gan gynnwys pwmpen, crochan, ac hyd-yn-oed ysbryd, wedi ei wneud allan o goed Helyg, papur sidan a glud. Er i'r gweithdy fynd yn hwylus, diflasodd y bobl ifanc ryw ychydig tua chanol dydd, felly penderfynwyd symud y criw allan i'r maes chwarae i chwarae gemau pêl. O edrych yn ôl, byddai diwrnod byrrach wedi bod yn well i'r criw ifanc hwn.

Adborth yr Hyfforddwr:

"*Tyfodd hyder y plant wrth iddynt …. ddechrau gweld eu cerfluniau yn ymffurfio*" – Jo Steadman.

Adborth y Gweithiwr Cynorthwyol:

"*Roedd hi'n ymddangos bod pob un o'r bobl ifanc yn falch iawn o'r hyn yr oeddent wedi eu gwneud a'u bod wedi ennyn ychydig o hyder oblegid hyn.* (Roedd yr Hyfforddwyr) *yn wych efo'r bobl ifanc, yn gefnogol iawn ac yn amyneddgar*" – Laura Skudra.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw.	Gwnaeth yr holl gyfranogwyr lusern allan o goed Helyg	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do	Cynhaliwyd ffug gyfweliad.
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	100% yn bresennol	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, roedd pob un o'r cyfranogwyr yn gallu adnabod taw coed Helyg yr oeddent yn ei defnyddio i weithio	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na: 4 = yr un peth 1 = llai 3 = mwy – 37.5%	

O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 7 eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau coedwig, nid oedd 1 eisiau.	

Adborth:

Hoffterau – "*Plygu'r Helygen*"
"*Gwneud crochan*"
"*Y cyfan"*

Anhoffterau - "*darnau sticî*"
"*y pêl-droed."*

Beth wnaethoch chi? –"*pwmpen*", "*crochan*", "*ysbryd*"

b.) Mynychodd 8 o bobl ifanc rhwng 12 a 18 mlwydd oed yr ail weithdy. Yn y bore, gwahoddwyd y criw i chwarae efo'r deunydd ac i greu cynllun yr un allan o goed Helyg a thâp masgio. Yr oedd angen amynedd a rhoi meddwl ar waith i greu darn gorffenedig, ac fe greodd y grŵp ffurfiau cynhyrfus: capiau, ffurfiau, gwialenau seren a peli. Yn ogystal â hyn, dangoswyd i ambell un o'r grŵp dechnegau gwead, ac fe lwyddont i wneud cadair.

Adborth yr Hyfforddwr:

"*Gwnaeth pawb gefnogi eu gilydd a chael tipyn o hwyl."* – Helen Campbell.

Adborth y Gweithiwr Cefnogol:

"*Ces fy synnu go iawn efo lefel canolbwyntio'r criw drwy gydol yr holl ddiwrnod; daliodd eu ffocws a'i diddordeb yn y dasg, a oedd yn gyrhaeddiad mawr. Fe wnaethant ymddwyn yn dda iawn drwy gydol y dydd er y gall ymddygiad un neu ddau aelod o'r criw fod yn heriol fel arfer. Gwelais welliant gwirioneddol yn lefel ymroddiad y grŵp ac roedd gwelliant pendant yn lefel eu hyder.*" – Laura Skudra.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Gwnaeth yr holl gyfranogwyr lusern	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Doedd dim camcorder ar gael	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	100% yn bresennol	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, roedd pob un o'r cyfranogwyr a ofynnwyd iddynt yn gallu adnabod mae coed Helyg a Cwyrwiail yr	

	oeddent yn eu defnyddio wrth weithio	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo: 5 = yr un peth 3 = mwy – 37.5%	4 wedi rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan ar y dechrau
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd 7 eisiau cymeryd rhan mewn mwy o weithgareddau mewn coedlannau, nid oedd 1 eisiau.	

Adborth:

Hoffterau – "*fe hoffes i e'n fawr*"

Anhoffterau - rhoddwyd dim

Gofalwyr Ifanc Sir Benfro:

Dyma'r gweithdy cyntaf sydd wedi ei gynnal efo Gofalwyr Ifanc Sir Benfro fel rhan o brosiect WICKED: cynhaliwyd y gweithdy fel rhan o noswaith clwb sefydledig y Grŵp sydd yn cymeryd lle bôb-yn-ail fis. Y gobaith yw bydd y gweithdy hwn y cyntaf o lawer o dan adain prosiect WICKED.

Noswaith Clwb Gweithdy Helyg – Cynhaliwyd gweithdy Helyg ar thema'r Nadolig ar 23ain Tachwedd. Cafodd y gweithdy ei gynnal yn Neuadd Albany, Hwlffordd, ac arweiniwyd gan Jo Steadman a Helen Campbell. Roedd 19 o Ofalwyr Ifanc yn cymeryd rhan yn y gweithdy, ac roeddent wedi teithio yno o bob cwr o Benfro. Arddangoswyd posibiliadau creadigol defnyddio coed Helyg a brwyn drwy arddangosfa o addurniadau tymhorol. Anogwyd y bobl ifanc eu hunain i arbrofi efo'r deunyddiau drwy wneud siapiau syml, cyn cael cymorth i wneud ffurfiau mwy manwl. Yr oedd yr addurniadau a wnaethpwyd yn cynnwys torchau, cadwyni, peli, sêr a choed Nadolig. Cynhaliodd y weithgaredd ddiddordeb y bobl ifanc drwy gydol y sesiwn 2 awr a hanner, a oedd, gan ystyried pa mor hwyr oedd hi a pha mor ifanc oedd rhai o'r plant, yn dipyn o gamp.

Adborth yr Hyfforddwr:

"Roedd y digwyddiad wedi ei drefnu a'i gefnogi yn dda iawn."

NÔD	CYRHAEDDIANT	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Creodd pob un o'r cyfranogwyr o leiaf un peth	

Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, defnyddiwyd y camera i recordio.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Amherthnasol, dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hi	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na, O'r pedwar wnaeth ymateb: 3 = yr un peth 1 = mwy = 25%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd y 9 cyfranogwr a wnaeth ymateb eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau WICKED.	

Adborth:

Hoffterau – *"y gweithdy gorau"*
"Fe wnes i ddwli ar bopeth! Diolch ooo galon."
"Bravo!!"

Anhoffterau - Rhoddwyd dim

b) Cynllun GWEITHIO'R GOEDWIG

(Ar gyfer y rhai 16 – 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na swydd)

Powys

Ceir isod y diweddariad ynglŷn â'r rhai sydd dan hyfforddiant ym mlwyddyn 1:
Mae'r holl rai sydd o dan hyfforddiant yn parhau â'u rhaglenni Adeiladu Sgiliau.

Prentisiaid 1 a 2 – Wedi cael ymestyn eu cynllun Adeiladu Sgiliau am dair wythnos ar ddeg ychwanegol (mae'r cynllun yn eu talu £50 yr wythnos tra eu bod yn ennill profiad gwaith). Maent yn gweithio efo'i gilydd mewn coedlan, sy'n agos i Lanwrtyd, sy'n perthyn i deulu un o'r prentisiaid.
Yn ddiweddar, ymwelodd Gwyneth â'r ddau fachgen a'u canfod mewn hwyliau da iawn. Roeddent yn falch o gael dangos y mannau o'r goedlan yr oeddent wedi dechrau eu rheoli (gan ddefnyddio llif bwa gan amlaf), yn ogystal a'r 6 pont yr oeddent wedi eu hadeiladu er mwyn eu galluogi i gludo coed.
Roeddent yn gobeithio cael cyflenwad da o goed sych i'w gwerthu fel coed tân yn ystod yr Hydref sydd i ddod.
Roedd y ddau brentis wedi adeiladu trol fechan allan o ddeunydd wedi eu hailgylchu, ac wedi creu twll gwrtaith.
Yr oedd yna Hwch a'i moch bach mewn sied gyfagos, ac roedd y ddau ar fin dechrau codi ffens i amgáu mannau o'r goedlan er mwyn gollwng y moch yno i reoli'r isdyfiant.

Maent wedi cyflawni eu hyfforddiant llif-gadwyn ac yn ymarfer ar hyn o bryd efo'r llif-gadwyn cyn ymgeisio am eu gwerthusiad NPTC.
Maent wedi cwblháu cwrs 2 ddiwrnod mewn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys yn llwyddiannus.
Hyfforddiant mewn Cwympo Coed efo Winsh i'w gynnal yn gynnar ym mis Ionawr ydy'r cynllun sydd ar y gweill am hyfforddiant pellach.

Prentis 3– yn parhau ar ei Gynllun Adeiladu Sgiliau. Er iddo ddechrau ei leoliad gwaith efo cwmni asio, y mae nawr wedi symud i weithdy peirianyddol.

CANLYNIAD:	**NÔD:**	**SYLWADAU:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Derbyniodd 66% achrediad
	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	100% wedi dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa
	O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu cael gwaith	100% wedi symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach

Ceredigion:

Ceir isod y diweddariad ar ddatblygiad yr 8 prentis:

Prentis 1 – Wedi gadael yr ardal. Wedi cael ei osod efo rhieni maeth newydd yn ardal Porth Talbot.

Prentis 2 – Yn dilyn cwrs Arlwyo yng Ngholeg Llanelli.

Prentis 3 – Wedi cael hyd i waith efo adeiladwr lleol.

Prentis 4 – Yn dilyn cwrs Gwneud Dodrefn City & Guilds Lefel 2 yng Ngholeg Ceredigion Aberteifi. Mae'n debyg ei fod yn gwneud yn dda iawn ar y cwrs.

Prentis 5 – Yn dilyn cwrs coleg.

Prentis 6 – Yn dilyn cwrs Diploma 6 mis mewn Gwaith Coed Irlas yng Ngholeg Coppicewood yng Nghilgerran. Er ei fod wedi methu ambell sesiwn, mae'n ymddangos yn hapus iawn efo'r cwrs. Mae teimlad o hunanwerth y prentis yma yn isel iawn, ond mae'n falch iawn bod ei sgiliau ar y turn polyn wedi cael ei canmol gan staff y coleg.
Y mae wedi cwbwlháu dros 100 o oriau gwirfoddol efo Coleg Coppicewood, ac yn fuan bydd yn derbyn ei Wobr Gwirfoddolwr y Mileniwm100 awr (prosiect wedi ei ariannu gan CGGC).
Yn ddiweddar, fe wnaeth y Prentis yma gwblhau cwrs 2 ddiwrnod mewn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys yn llwyddiannus.

Prentis 7 – Hefyd yn dilyn cwrs Diploma 6 mis mewn Gwaith Coed Irlas yng Ngholeg Coppicewood, Cilgerran. Er bod y person ifanc yma o dan orchymyn arolygu, mae wedi ei ganmol am ei bresenoldeb.
Mae hefyd wedi cwblhau dros 100 o oriau yn gwirfoddoli efo Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac efo Coleg Coppicewood, ac yn fuan bydd yn derbyn ei Wobr Gwirfoddolwr y Mileniwm100 awr.

Prentis 8 – Heb ymgeisio am unrhyw gyfleoedd i wirfoddoli na gweithio.

CANLYNIAD:	**NÔD:**	**SYLWADAU:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Mae 75% wedi, neu ar fin derbyn achrediad
	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	Mae 75% wedi dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa
	O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu waith	Mae 75% wedi symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu waith

Sir Benfro:

Ers i'r sesiynau cyflwyniadol ddirwyn i ben, mae rhai o'r cyfranogwyr wedi symud ymlaen i rhan 1 a 2 o'r rhaglen. Disgrifiad byr o bob un o'r cyfranogwyr â ddilynir:

Prentis 1 – Dechreuodd gwrs coleg ym mis Medi, ond penderfynodd i'r cwrs fod yn anaddas a rhoddodd y gorau iddo. Mae Becky wedi bod yn gweithio gyda Iwan Parry (Coed Cymru) i drefnu lleoliad gwaith ar gyfer xxx yn Storfa Goed Sir Benfro. Y math o sgiliau a hyfforddiant sydd ar gynnig ydy llwytho a graddio coed a delio ag ymholiadau cwsmeriaid, a fydd yn arwain at lifio a pharatoi coed, ac efallai gwaith cerbyd fforchgodi. Er mwyn gallu dod yn ran o raglen Adeiladu Sgiliau (lleoliad gwaith o 4 diwrnod ac 1 diwrnod o hyfforddiant sgiliau craidd a £50 o dâl hyfforddi), mae xxx wedi ymuno â Future Works, asiantaeth hyfforddi Cyngor Sir Benfro. Dechreuodd xxx ei leoliad gwaith â brwdfrydedd mawr ar Ragfyr 10ed. Os eith pethau'n iawn, bydd Becky yn ymweld â xxx yn y gweithle yn y Flwyddyn Newydd.

Prentis 2 – Roedd lleoliad gwaith wedi cael ei drefnu yng Ngweithdy Cilrhedyn ar gyfer y person ifanc yma. Yn anffodus, bu'r cyfranogwr yma yn ddiymateb, ac mae yn awr wedi diflannu oddi ar radar Tir Coed a Gyrfaoedd Cymru.

Prentis 3 – Nawr wedi cwblhau dros 100 awr o wirfoddoli â Choleg Coppicewood, ac yn fuan bydd yn derbyn ei Wobr Gwirfoddolwr y Mileniwm100 awr (prosiect wedi ei ariannu gan CGGC). Ym mis Hydref, dechreuodd xxx gwrs 6 mis, 2 ddiwrnod yr wythnos, efo Coleg Coppicewood wedi ei achredu gan RhCA, ac mae e'n datblygu'n raddol. Ond mae xxx wedi datblygu cyflwr iechyd difrifol dros y misoedd diwethaf, ond er bod hyn yn golygu nad ydyw yn bresennol bob tro, mae'n dal ati. Ysgrifennodd mam xxx at Tir Coed i ddweud, *"Diolch eto am roddi'r cyfle arbennig yma i xxx, mae wrth ei fodd."*

c) Rhaglen Coed Call

(Ar gyfer pobl ifanc, 14 – 16 mlwydd oed sydd wedi cael, neu mewn peryg o gael, eu diarddel o'r ysgol)

Powys

Hyd yma, nid oes unrhyw ddatblygiad mewn creu prosiect Coed Call ym Mhowys. Dealla'r Swyddog Prosiect bod ad-drefnu mawr o weithwyr a swyddfeydd wedi digwydd oddi fewn i Gyngor Sir Powys. Er y bu nifer o geisiadau i drafod efo'r Adran Addysg a'r Gwasanaeth Ieuenctid, mae'r ymateb wedi bod yn negyddol.

Er hyn, gobeithir y bydd cyswllt efo ysgolion unigol yn ennyn ymateb mwy cadarnhaol. Mae'r Swyddog Prosiect yn trafod efo 2 ysgol uwchradd ar hyn o bryd er mwyn mesur y posibiliadau.

Ceredigion:

Dechreuodd y cynllun Coed Call yng Ngheredigion ar 12fed o Fedi yng Nghoed Pen yr Allt, yn agos i Gei Newydd. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal drwy bartneriaeth efo'r Adran Addysg, ac yn cael ei arwain gan Heather Summers, gyda Ruth Spencer yn cefnogi; dwy a fynychodd Hyfforddiant Gweithiwr Cynorthwyol Coed Call yn gynharach eleni.

Er bod 6 o bobl ifanc yn wreiddiol (wedi eu hargymell gan y Wasanaeth Cynhwysedd Addysgol), erbyn yr ail hanner tymor, cnewyllyn o 4 oedd yn mynychu'n gyson, ac un arall yn mynychu nawr-ac-yn-y-man.
Yn anffodus, erbyn diwedd tymor y Nadolig, roedd y criw wedi gostwng i 3 person ifanc. Rhoes 2 o'r cyfranogwyr y gorau iddi oherwydd:

- Bod un o'r bobl ifanc yn ei chael hi'n anodd i weithio mewn sefyllfa tîm; roedd yn iawn mewn sefyllfa un wrth un, ond daeth ei ymddygiad yn drafferthus mewn sefyllfa tîm. Roedd ei ymddygiad yn effeithio ar gyfranogiad yr aelodau eraill o'r tîm. Ar ôl derbyn sawl rhybudd, penderfynodd y person ifanc nad oedd am gymeryd rhan pellach.
- Y person ifanc arall oedd yr unig ferch ar y prosiect. Er ymdrechion yr Arweinydd a'r Cynorthwyydd benywaidd i gysylltu efo hi, teimlai yn rhy ynysedig, a gadawodd y prosiect.

Ynghŷd â gweithgareddau ymarferol wythnosol, anogir y bobl ifanc i ymuno yn y paratoi ar gyfer cinio'r grŵp, sy'n cael ei goginio a'i fwyta, pryd bynnag mae'n bosib, o gwmpas tân gwersyll. Maent yn cynorthwyo i baratoi'r llysiau ar gyfer y cawl, ayyb. ac mae disgwyl iddynt olchi'r llestri a glanhau.

Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi dechrau ar brosiect uchelgeisiol i adfer ac ymestyn theatr goedlan sydd wedi ei leoli yn y coed. Mae hyfforddwr arbenigol wedi dod i'w cynorthwyo efo'r gwaith adeiladu hwn.
Mae'r prosiect adeiladu hwn, ynghŷd ag adnabyddiaeth offer, yn mynd i gael ei achredu drwy'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA). Mae uned RhCA â fodolai'n barod wedi cael ei addasu i weddu'r gwaith, cymeradwywyd hyn yn ddiweddar.
2 uned i gymeryd lle yn ystod yr wythnosau sydd i ddod:

- Adeiladu Lloches Goed Sylfaenol;

- Adnabod Offer a Theclynnau Gwaith Coed.

Bydd y RhCA yn cael ei wirio'n fewnol gan Sue Lewis (o Adran Addysg Ceredigion) sydd wedi bod yn cynorthwyo'r Swyddogion Prosiect a'r Hyfforddwr prosiect i baratoi Cynlluniau Gwers, Rhestrau Gwirio, a Dulliau Asesu.
Y gobaith ydi y bydd dilyn trywydd Sue Lewis yn paratoi'r gwaith papur, ac yn cadarnhau'r ddwy uned yma, yn rhoi gwell dealltwriaeth i Swyddogion Prosiect Tir Coed o ddull trosglwyddo RhCA.

Mae 3 cyfranogwr ar y prosiect yma ar hyn o bryd, ond mae'r canrannau isod wedi eu mesur ar sail y 5 cyfranogwr a oedd yn mynychu am y rhan fwyaf o dymor y Nadolig. Rhoddodd y 3 cyfranogwr a oedd yn bresennol yn ystod sesiwn olaf tymor y Nadolig yr adborth a ddilynir:

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Creodd pob un o'r cyfranogwyr o leiaf un peth.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig – doedd y cyfranogwyr ddim yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r camera fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	4 wedi bod yn mynychu'n gyson 1 nawr-ac-yn-y-man	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:	Yr oedd y 3 a gwblhaodd ffurflen adborth yn gallu enwi o leiaf un math o goeden, yn ogystal â un math o ffawna, ac hefyd un ffordd y mae coedlannau o ddeunydd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	1 – hapusach 2 – yr un peth	1 yn flaenorol wedi rhoi y marc uchaf o 5 i'w hunan, felly doedd dim lle i wella
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Fe wnaeth y 3 a gwblhaodd ffurflenni adborth roi y marc	

	uchaf o 5 a olygai "Rydw i'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored"	
NÔD:	**Carreg Filltir:**	**Sylwadau:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Mae 60% o'r cyfranogwyr wedi eu cofrestru ar gyfer achrediad	3 cyfranogwr
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	70% o'r cyfranogwyr a chanran fynychu o o leiaf 70%	3 – Presenoldeb da 1 – gweddol 1 - gwael

Adborth:

Hoffterau – *"Cynnau tân"*
"Gwneud pethau"
"Chwarae drymiau"
"Teithiau i'r traeth" (mae'r coed yn arwain tuag at y traeth)
"Cerdded trwy'r coed"
"Adeiladu"

Anhoffterau - *"Cerdded nôl"*
"Dim nwy yn ystod y sesiwn olaf"
"Troeon hir i fyny rhiwiau"
"Tori 'nghefn yn cario coed"
"Dim"

Beth ddysgoch chi ac â wnaethoch chi?
"Sut i ddefnyddio offer"
"Adeiladu"
"Sut i adeiladu pethau allan o goed – ffon gerdded, tŷ adar"
"Saernïaeth"
"Gwaith coed"
"Drymio"
"Gwneud cawl"

Adborth gan yr Arweinydd ar Gweithiwr Cynorthwyol:-
"*Ar y cyfan, mae hyder pob un o'r cyfranogwyr wedi tyfu, yn ogystal a'u gallu i gyfathrebu efo'u gilydd ac efo ni."*
X – "Dydi ei ben ddim yn y cymylau cymaint yn awr, ar y cyfan, dydi ef ddim yn dweud cymaint o gelwyddau dychmygol, mae ei draed yn gynyddol ar y ddaear a'i gymeriad yn fwy crwn. Gwnaeth ei fam y sylw ei bod yn teimlo ei bod wedi cael ei mab yn ôl, ac ei fod yn dod adref o'r coed yn llawn brwdfrydedd."
Y – "Fel y deuwn i'w 'nabod, mae e'n dangos parodrwydd i fyfyrio cyn gweithredu, cynnig syniadau a cymeryd cyfrifoldeb am les cyffredinol yr offer. Mae'n dysgu gwrando ac yn canolbwyntio mwy pan yn cael ei gadw'n brysur."

Z – "Allan o'r criw, fe sydd â'r lleiaf o hunan hyder, ond mae e' wir yn dod i'w goedd. Gwahaniaeth pendant. Darganfu ei allu i ddefnyddio offer a gweithio'n gorfforol, pethau oedd yn estron iddo ar ddechrau'r prosiect."

Trafferthion penodol wedi eu nodi gan yr Arweinydd:-
Y Grŵp – *"Tra bod y pedwerydd aelod (sydd nawr wedi gadael) o'r criw yno, roedd lefel canolbwyntio y tri arall yn llawer is, roeddent yn llai parod i weithio ac yn llai cyfrifol. Ers iddo adael, bu gwelliant sylweddol yn eu hymateb cyffredinol, yn eu canolbwyntio ac yn eu hagwedd."*

Y Lleoliad – *"Diffyg cyfathrebiad o ran criw rheoli'r goedlan a chynnwrf yn y safle gwaith (gwaith JSB, cwt yn gollwng, diffyg ffynhonnell gwres ar adegau, gwartheg yn rhydd, gwahanol bobl yn taro mewn yn annisgwyl) wedi bod yn her, ond rydym ni fel grŵp wedi dod drwyddi er gwaethaf yr holl drafferthion, ac rydym yn falch o'r bobl ifanc sydd wedi cario 'malen er gwaethaf."*

Sir Gâr:

Ar ôl ychydig o drafferth, cynhaliwyd sesiwn gyntaf Coed Call yn Sir Gâr ar Hydref 25ain yng Nghoed Tŷ-coed yn agos i Sain Clêr. Y cynllun gwreiddiol oedd cymeryd 4 person ifanc allan o'r ysgolion sy'n gysylltiedig â'r ddau weithiwr ieuenctid sy'n arwain y prosiect, Anwen Davies - Brenhines Elisabeth – BE- (Caerfyrddin) a Cynyr Ifan - Dyffryn Tâf (Hendy Gwyn Ar Dâf). Ond bu trafferth ynglŷn a cyfeirio disgyblion o Ddyffryn Tâf gan bod yr athro sy'n gyfrifol am dangyrhaeddwyr eisiau cyfeirio pob un o'r disgyblion a oedd o dan ei ofal; byddai hyn wedi golygu na fyddai lle i ddisgyblion BE. Hefyd, yr unig ddiwrnod o'r wythnos y gallai y ddau weithiwr ieuenctid gynnal Prosiect Coed Call oedd y dydd Iau, sef y diwrnod y mynychai y rhan fwyaf o bobl ifanc addas BE y Coleg, felly mae nifer y cyfranogwyr wedi bod yn isel. Y mae tair sesiwn wedi eu cynnal, a dau berson ifanc yn mynychu.

Er mwyn sicrháu niferoedd mwy, bydd y diwrnod yn newid i ddydd Mercher yn y Flwyddyn Newydd, gan gynnwys disgyblion o BE. Bydd Anwen Davies yn arwain y prosiect ynghŷd â Chynorthwy-ydd. Yn y flwyddyn newydd, bydd Becky yn gweithio ar y posibilrwydd o greu ail brosiect Coed Call efo Cynyr, â fyddai'n cynnwys naill ai Dyffryn Tâf a/neu disgyblion Castell Newydd Emlyn. Bydd ychwaneg o adborth yn yr adroddiad nesaf.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw.	Do, creodd y ddau gyfranogwr o leiaf un peth.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig – doedd y cyfranogwyr ddim yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r camera	

	fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	50% â chanran fynychu o o leiaf 70%. Yn ei grynswth, 83% oedd canran y mynychu	Mynychodd 1 cyfranogwr bob un o'r 3 sesiwn, a mynychodd y llall 2 sesiwn
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		Ni brofwyd y nôd hwn oherwydd y nifer fechan o sesiynau.
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect		Ni brofwyd y nôd hwn oherwydd y nifer fechan o sesiynau.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol		Ni brofwyd y nôd hwn oherwydd y nifer fechan o sesiynau.
Nôd	**Carreg Filltir**	**Sylwadau**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Ddim wedi dechrau anelu tuag at achrediad eto.	
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	50% â chanran fynychu o o leiaf 70%. Yn ei grynswth 83% oedd canran y mynychu	Mynychodd 1 cyfranogwr bob un o'r 3 sesiwn, a mynychodd y llall 2 sesiwn

Adborth y tymor 1af:
Adborth yr Arweinydd:
"Roedd y cyfranogwyr yn frwdfrydig iawn i gael mynychu ac fe wnaethant wir fwynhau'r gwaith. Dangosant ddiddordeb naturiol mewn gweithio efo'r coed, y gasseg lyfnu a sgwrio darnau o goed. Hefyd, wedi rhoi gweithgaredd iddynt, fe wnaethant ganolbwyntio drwy gydol y dydd, dengys hyn eu bod wedi mwynhau'r sesiynau."

Sir Benfro:

Y mae Coed Call yn Sir Benfro, sy'n cael ei arwain gan y Gweithwyr Ieuenctid Anthony Harris a Matt Done, wedi cael dechrau penigamp. Mae 14 sesiwn wedi cael eu cynnal, ac mae 7 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Y mae 5 disgybl anghenion arbennig o Ysgol Penfro yn cymryd rhan, ac ers sesiwn 5 mae 2 o bobl ifanc, o Ysgol Greenhill (Dinbych-y-Pysgod), sydd wedi bod yn tangyflawni, wedi ymuno â nhw. Mae'r criw wedi asio'n dda, a gwelir y disgyblion mwy abl yn cynorthwyo'r lleill. Mae'r sesiynau yn cael eu cynnal bob wythnos ar ddydd Mawrth, ac yn cael eu cynnal am yn ail wythnos yng ngweithdy'r Green Links wood (wrth ymyl Ysgol Penfro), ac naill ai yng nghoedlan y Green Links neu yng Nghanolfan Ieuenctid Dinbych-y-Pysgod (yn ddibynnol ar y tywydd ac ar y weithgaredd). Mae un person ifanc (o Ysgol Penfro) wedi gadael y grŵp oherwydd ymrwymiadau eraill; mae hyn yn gadael 6 cyfranogwr.

Hyd yn hyn, mae'r cyraeddiadau yn cynnwys gwneud blychau bywyd gwyllt (adar a draenogod), gwneud drwm a ffon law, creu safle gwaith teras yn y coed, yn defnyddio palisau pleth, cerfiadau bwa, gwneud llusern allan o goed Helyg, adnabod coed, a choedwriaeth.

Mae'r bobl ifanc yn y broses o ennill eu Gwobr Cyrhaeddiad Ieuenctid Efydd, a dymunant ym mhen amser i symud ymlaen i gael achrediad Rhwydwaith Coleg Agored.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd pob cyfranogwr amryw o bethau.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig – doedd y cyfranogwyr ddim yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r camera fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	57% â chanran fynychu o o leiaf 70%. Yn ei grynswth, 66.2% oedd canran y mynychu	Mae 4 bachgen o Ysgol Penfro wedi bod yn mynychu'n gyson. Gadawodd 1 ar ôl y 4ydd sesiwn Gwnaeth 2 fachgen ddim ond ymuno a'r grŵp yn ystod sesiwn 5
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		Heb dderbyn yr wybodaeth eto, i'w gynnwys yn yr adroddiad nesaf

O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect		Heb dderbyn yr wybodaeth eto, i'w gynnwys yn yr adroddiad nesaf
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol		
Nôd:	**Carreg Filltir:**	**Sylwadau:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Pob un o'r cyfranogwyr presennol wedi eu cofrestru ar gyfer achrediad	6 cyfranogwr
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	57% â chanran fynychu o o leiaf 70%. Yn ei grynswth, 66.2% oedd canran y mynychu	Mae 4 bachgen o Ysgol Penfro wedi bod yn mynychu'n fynych. Gadawodd 1 ar ôl y 4ydd sesiwn Wnaeth 2 fachgen ddim ond ymuno a'r criw yn ystod 5

Adborth o'r hanner tymor 1af :

Hoffterau – *"Gweithio yn y coed"*
"gwneud bwa a saethau"
"Drymiau croen gafr"
"defnyddio'r droniff"
"Y cyfan"

Anhoffterau - *"dim – roedd y cyfan yn hwyl mawr"*
"glaw"
"Aros am eraill i ddal i fyny."
"Tacluso"

Beth a wnaethoch chi? –
"welydd cerrig sych"
"postion ar gyfer palis coed Helyg"
"tân"
"torri coed ar gyfer gwneud bwa"
"bocs aderyn"
"ffon law, bu raid i mi farcio llinell yn defnyddio sialc, torri'r bambŵ, drilio tyllau a defnyddio llawer o offer gwahanol."

Adborth yr Arweinydd o dymor 1:

"Ar y cyfan, y mae cyfeillgarwch a hyder yn eu gilydd wedi datblygu oddi fewn i'r grŵp. Mae'r ddau griw o ysgolion gwahanol yn awr wedi dechrau cydweithio â'u gilydd.

Mae pob aelod wedi ymgeisio ac wedi cwblhau pob tasg i'w gallu eu hunain

(er enghraifft):

Mae xxx wedi magu llawer o hyder oddi fewn i'r grŵp a nid yw'n crwydro i ffwrdd bellach.

*Mae xxx wedi dod i ddeall bod ymddwyn yn dda tra allan efo'r grŵp ac yn ystod ei waith dosbarth yn golygu nad yw'n colli allan ar grŵp (*Coed Call*) dydd Mawrth.*

Gwerthfawrogwyd y tasgau rhwydd megis gwneud y blychau gan rieni xxx. Dyma un o'r troeon cyntaf i xxx gyflawni rhywbeth a'i gludo adref.

Mae pob un o'r criw wedi dangos gwybodaeth am ddiogelwch offer, ac maent yn fynych yn darganfod diffygion diogelwch ymhlith y grŵp ac ymhlith aelodau'r staff weithiau. Mae hyder wrth drafod offer a gweithio efo coed irlas wedi tyfu llawer ers mis Medi.

Mae hi wedi bod yn wych i allu tywys grwpiau allan i'r coed ... a ddim o flaen teledu na chyfrifiadur."

Hyfforddiant Gweithwyr Cynorthwyol:

1. Trefnwyd cwrs Cymorth Cyntaf Brys 2 ddiwrnod ar gyfer Gweithwyr Cynorthwyol. Gan bod staff Powys a Sir Gâr yn ardystiedig yn barod mewn Cymorth Cyntaf, penderfynwyd lleoli'r cwrs yng Ngheredigion, yn Neuadd Bentref Llwyncelyn. Arweiniwyd yr hyfforddiant gan Strata Medical, cwmni sy'n arbenigo mewn Cymorth Cyntaf yn yr awyr agored.
Mynychodd 10 person. Cwblhaodd 9 o rhain y cwrs yn llwyddiannus a cyflwynid iddynt dystysgrif sydd yn ddilys am 3 mlynedd. Yn anffodus, methodd un o'r cyfranogwyr fynychu ar yr ail ddiwrnod oherwydd salwch. Cyflwynwyd iddo dystysgrif Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf sy'n ddilys am flwyddyn.

Adborth
Dangosir yn y tabl isod ymateb crynhöol y 9 cyfranogwr a gwblhaodd ffurflenni adborth Strata Medical:

	Gwael 1 Isel	**2**	**3**	**4**	**Ardderchog 5 Uchel**
Â gyrhaeddodd yr hyfforddiant y nôd penodedig?				1	8
A oeddech yn hapus efo'r raddfa rhwng y theori a'r ymarferol?				1	8
Gwerthuswch safon yr hyfforddi os gwelwch yn dda				2	7
A oedd y "dull hyfforddi" yn gymorth i'ch dysgu?				1	8
Â gymerwyd digon o sylw o gyfleoedd cyfartal?			1	1	7
A oedd strwythur yr asesiad yn ddigon da?			1	1	7
Mynegwch eich barn ar safon y deunyddiau dysgu os gwelwch yn dda:					
Taflenni			1	1	7
Siart-troi-drosodd				3	6
Sleidiau				2	7
Mynegwch eich barn ar safon yr offer os gwelwch yn dda				3	6
Mynegwch eich barn ar safon y lleoliad os gwelwch yn dda				5	4
Mynegwch eich barn ar safon y gweinyddu / trefniant				3	6
Yn ei grynswth, a wnewch chi asesu safon eich cwrs				2	7

Sylwadau - *"Hyfforddiant ardderchog, clir, cyfeillgar, cryno"*
"Cwrs ardderchog, ymarferol iawn!"
"Y cwrs Cymorth Cyntaf gorau 'rydw i wedi mynychu"

Awgrymiadau - "*Efallai mwy o sesiynau"*

2. Gweithdy hyfforddiant 1 diwrnod, "Diogelwch a Chymorth yn y Coed" ar gyfer gweithwyr ieuenctid, yn cynnwys diogelwch a materion ymarferol sy'n ymwneud â rheoli gweithgaredd wedi ei leoli mewn coedlan. Bwriadwyd cynnal y gweithdy hwn ar ddiwedd mis Tachwedd, ond, oherwydd ymrwymiadau eraill, roedd amryw o'r gweithwyr ieuenctid yn methu mynychu. Mae'r gweithdy yn cael ei aildrefnu yn gynnar yn 2008.

3. Mae staff Gofalwyr Ifanc Powys wedi gofyn am hyfforddiant mewn gwaith trin coed Helyg; credant y byddai hyn yn weithgaredd defnyddiol y gallent gynnig i'w pobl ifanc dros yr hir dymor, yn ystod nosweithiau clwb, ayyb.

Diwedd yr adroddiad.